

16 Chwefror 2021

E-bost: nasuwt@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

Ysgrifennydd Cyffredinol: **Dr Patrick Roach**

At Gyfarwyddwyr Addysg/Gwasanaethau Plant

Covid-19 – Ail agor ysgolion cynradd ym mis Chwefror 2021

Annwyl gydweithwyr

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran aelodau o NASUWT (Undeb yr Athrawon) mewn perthynas â'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am ail agor ysgolion cynradd erbyn 22 Chwefror 2021.

Diben fy llythyr yw gofyn i chi beidio â gofyn i ysgolion ail ddechrau addysgu wyneb yn wyneb tra bydd Cymru ar Lefel 3 (risg uchel) neu Lefel 4 (risg uchel iawn), hyd nes daw rhagor o dystiolaeth i ddangos bod y firws yn cael ei atal a bod dulliau lliniaru ychwanegol yn cael eu cyflwyno yn y gweithle ac mewn iechyd cyhoeddus i leihau lledaeniad y firws ymhlith athrawon. Safiad arall gan yr Undeb yw bod yn rhaid i unrhyw gamau i ail agor ysgolion yn ehangach fod yn amodol ar foddhad y cyflogwr unigol yng nghyflawniad ei ddyletswyddau er budd iechyd a diogelwch ei staff.

Er bod gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ofyn i ysgolion ail agor o dan Atodlen 17 Deddf y Coronafeirws 2020, mae'n rhaid iddi arfer ei phwerau'n gyson ag Erthygl 2 (Hawl i fywyd) ac Erthygl 8 (Parch am fywyd preifat a theuluol) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae safbwynt NASUWT am yr hawliau sydd gan ei aelodau o dan y Confensiwn yn eglur a diamwys, sef:

1. Os bydd unrhyw rai o'i aelodau'n marw ar ôl dal y Coronafeirws wedi iddynt gael eu gorfodi i ddychwelyd i'r ysgol cyn cael eu brechu, byddai hyn yn torri'r hawliau sydd ganddynt o dan **Erthygl 2**. Mae hyn yn arbennig o berthnasol am fod gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ddarparu brechiad cynnar i athrawon, gan gynnwys aelodau o NASUWT.
2. Mae rhoi ei aelodau mewn perygl o ddal clefyd difrifol a'i drosglwyddo i'w teuluoedd neu eu swigod cefnogaeth yn drosedd materol i'w hawl i fywyd preifat a theuluol.

Mae'r Undeb wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i'w hatgoffa am ei dyletswyddau.

Yn ogystal â'r uchod, agwedd bwysig i chi fel cyflogwr yw na allwch ddirprwyo'r dyletswyddau sydd gennych o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Hoffwn dynnu eich sylw at adran 2 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

O dan y ddarpariaeth hon, rhaid i'r cyflogwr fodloni ei hun (a'i ddarparwr yswiriant atebolrwydd) nad oes unrhyw risg afresymol i iechyd a diogelwch ei staff, gan gynnwys

aelodau o NASUWT, ac ni ellir ei ryddhau o'r ddyletswydd hon, sydd i'w chael mewn deddfwriaeth sylfaenol, drwy orchymyn a wnaed, neu gam gweithredu a gymerwyd, o dan Atodlen 17 achos '*R v Secretary of State for Social Security, Ex p Joint Council for the Welfare of Immigrants [1997] 1 WLR 275*', a ddyfynnwyd gyda chymeradwyaeth ac a weithredwyd gan y Goruchaf Lys ym mharagraff 103 achos '*R (on the application of Unison (Appellant) v Lord Chancellor (Respondent) [2017] 3 WLR 409*'.

Felly, y cwbl y mae deddfwriaeth sylfaenol yn ei wneud yw nodi pŵer statudol ac ni all ddiddymu'r ddyletswydd a roddir ar gyflogwyr gan adran 2 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Mae'n werth nodi ei bod hi'n drosedd i dorri'r dyletswyddau cyffredinol o dan y ddarpariaeth hon. Mae'n rhaid i chi hefyd gymryd i ystyriaeth y dyletswyddau sydd gennych o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1991.

Felly, mae'n annigonol i gyflogwyr wneud dim byd ond dilyn arweiniad neu benderfyniad y llywodraeth i ail agor a thybio ei bod wedi cyflawni ei dyletswyddau o ran iechyd a diogelwch neu, yn wir, ddibynnu ar y penderfyniad hwnnw i gyfiawnhau ail agor ysgolion heb gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol eu hunain.

Fel yr ydym wedi ei ddweud yn ein gohebiaeth ym mis Gorffennaf 2020, mae NASUWT yn disgwyl i bob awdurdod lleol sicrhau bod pob ysgol a gynhelir a phob lleoliad addysgol a gynhelir wedi cwblhau eu rhestr wirio iechyd a diogelwch cyn iddynt agor, gan gynnwys eu hasesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb.

Yn y cyd-destun hwnnw, rhaid i chi sicrhau:

1. nad oes gofyniad ar ein haelodau i ddod i'r gwaith nes byddwch wedi darparu gweithle diogel a system weithio ddiogel sy'n cydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol;
2. y byddwch yn cymryd yr holl gamau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol (gan gynnwys gwneud asesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb), ac yn rhoi gwybod i NASUWT am ddyddiad cyflawni'r camau hynny;
3. nad oes gofyniad ar ein haelodau i ddod i'r gwaith nes byddent yn fodlon bod tystiolaeth i ddangos cydymffurfiad o'r fath.

O ystyried mor bwysig ac argyfyngus yw'r materion hyn, hyderaf y byddwch yn ymdrin â'r mater hwn yn ddi-oed ac yn ateb y pwynt sydd wedi ei nodi uchod ar frys. Os byddwch yn methu gwneud hynny, cedwir pob hawl gyfreithiol yn ffurfiol, gan gynnwys hawliau cyfreithiol aelodau NASUWT. Felly, efallai y byddai'n briodol i chi rannu'r llythyr hwn gyda'ch darparwr yswiriant atebolrwydd.

Yr eiddoch yn gywir



Dr Patrick Roach
Ysgrifennydd Cyffredinol

cc: Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg